

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor - 7.00 pm, Nos Llun 26 Mehefin 2023

Yn bresennol: Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd

Cynghorwyr: Siân Enfys Jones, Sharon Parry, Einir Thomas a Gareth Thomas.

Hefyd yn bresennol: - Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol

Ymddiheuriadau: Gwilym O Jones, William Victor Owen.

1. Datganiad o Ddiddordeb – dim.

2. Cyfrifon Terfynol 2022/23

Eglurodd y Clerc / SAC mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried cyfrifon 2022/23 cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2023.

Dosbarthwyd copi o'r Ffurflen Flynyddol gydag adroddiad yr Archwilydd Mewnol i'r Aelodau i gyd cyn y cyfarfod. Cadarnhawyd bod y cyfrifon mewn trefn a doedd dim argymhellion ar gyfer sylw'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad, felly byddai'r Cadeirydd a'r SAC bellach yn cadarnhau'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei hanfon gyda'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt i'r Archwilwyr Allanol.

3. Cyfarfod nesaf – 18 Gorffennaf 2023.

: